awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Amlinelliad o'r Swydd

Teitl y Swydd:
Rheolwr Blaen y Tŷ

Sail:
Llawn Amser - Blynyddol

Cyflog:
£31,965 - £32,957

Lleoliad:
Neuadd y Dref Maesteg

Atebol i:
Uwch Reolwr Theatrau

Yn gyfrifol am:
Cynorthwywyr
Digwyddiadau Profiad
Cwsmer
Gwirfoddolwyr
Rheolwyr Dyletswydd
Achlysurol

Eich Rôl:

Fel rhan o dîm gweithrediadau Neuadd y Dref Maesteg, byddwch yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi'r Uwch Reolwr Theatr i redeg y theatr yn hwylus. Byddwch yn ysgogi safonau uchel o wasanaeth cwsmeriaid trwy'r adeilad ac yn sicrhau bod y Bar a'r Caffi yn cael eu cynnal yn effeithlon.

Yn y rôl byddwch yn:

- Darparu arweiniad ar gyfer ardaloedd Blaen y Tŷ gan gynnwys mannau cyhoeddus, y bar, a mannau cynadledda.
- Gweithredu fel cydlynydd gwirfoddolwyr o ddydd i ddydd, gan arwain ar restr dyletswyddau gwirfoddolwyr yn ogystal â hyfforddiant a chefnogaeth barhaus.
- Ysgogi safonau gwasanaeth cwsmeriaid ledled y lleoliad, gan sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r adeilad yn derbyn croeso cynnes a gwasanaeth effeithlon.
- Rheoli'r tîm o Reolwyr Dyletswydd achlysurol a Chynorthwywyr Digwyddiadau Profiad Cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys (ond ddim yn gyfyngedig i) cynhyrchu rotas ar gyfer y caffi a'r bar, cynnal hyfforddiant parhaus, cynnal adolygiadau a chyfarfodydd dal i fyny, ac ysgogi'r tîm i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Cefnogi'r Uwch Reolwr Theatrau i gynnal trefniadaeth ragorol a sicrhau bod yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu bodloni ledled yr adeilad.
- Cael trwydded bersonol a chynnal ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth gyfredol am drwyddedau mangre.
- Goruchwylio rhestr dyletswyddau staff digwyddiad yn unol â chyllidebau y cytunwyd arnynt ac mewn ymgynghoriad â'r Uwch Reolwr Theatr.
- Cefnogi'r broses gyflogres ddiwedd mis ar gyfer y Cynorthwywyr Digwyddiadau Profiad Cwsmer.
- Delio'n effeithlon ag ymholiadau cwsmeriaid, canmoliaeth a chwynion.
- Darparu goruchwyliaeth effeithiol, gan sicrhau bod yr holl weithdrefnau trin arian parod ar gyfer bar, ciosg, a fflôt arian parod yn cael eu rheoli'n gywir.
- Cysylltu â Chwmnïau Ymweld ynghylch trefniadau ar gyfer eu perfformiad. Gall y rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cyfarfod a chyfarch, gwerthu nwyddau, gofynion artistiaid, rhybuddion sioe. Sicrhau bod Ystafelloedd Gwisgo yn cael eu paratoi cyn i'r Cwmni Ymweld gyrraedd.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno digwyddiadau llogi preifat.
- Sicrhau bod y bar a'r caffi yn rhedeg yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod holl ofynion y drwydded yn cael eu bodloni, sicrhau safonau hylendid rhagorol, ysgogi safonau uchel o wasanaeth cwsmeriaid, a sicrhau bod stoc yn cael ei gynnal yn dda ac yn berthnasol i'r digwyddiad.
- Ochr yn ochr â'r Uwch Reolwr Theatr a'r Sous Chef, nodi meysydd datblygu o fewn bwydlenni'r caffi a'r bar i wella profiad y cwsmer a gwneud y mwyaf o elw.
- Bod â dealltwriaeth dda o'r system ddyddiaduron Cynllunio a chysylltu â'r Sous Chef am unrhyw ofynion arlwyo sydd ar ddod.
- Gweithredu fel deiliad allweddi ar gyfer yr adeilad.
- Cynnal shifftiau Rheolwr Dyletswydd ar gyfer sioeau a digwyddiadau lle bo angen.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol y rôl yw:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn y rôl.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerthoedd ym mhopeth rydych chi'n ei wneud, gan arsylwi a hyrwyddo pedwar gwerth Awen bob amser – Creadigol, Grymuso, Cydweithredol a Thegwch.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb, amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Bod yn weithredol wrth herio gwahaniaethu a stigma yn y gweithle.
- Bod yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.
- Gofalu am eich lles corfforol a seicolegol eich hun lle bynnag y bo modd.
- Cefnogi lles seicolegol a chorfforol ein cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathig a chynhwysol.
- Bod yn gyfrifol wrth ein helpu i gyflawni ein huchelgais cynaliadwyedd drwy gyfrannu at leihau eich ôl troed carbon unigol a gweithio tuag at yr amcanion sefydliadol yn unol â strategaeth gynaliadwyedd Awen.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Awen.

Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd hon, y gallai fod yn rhaid eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y gwasanaeth.

Manyleb y Person

Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Menter, dyfeisgarwch, hyblygrwydd a dull hunanysgogol o'r radd flaenaf. (H)
- Meddyliwr arloesol gyda dull sy'n seiliedig ar atebion. (H)
- Dull cadarnhaol ac ysgogol i gefnogi cydweithwyr a thimau i gyflawni nodau ac amcanion cyffredin. (H)
- Ymagwedd hyderus a phroffesiynol ac yn mwynhau rhwydweithio a chreu perthnasoedd cadarnhaol gyda'r holl randdeiliaid. (H)
- Meddwl blaengar ac yn gallu cyfrannu at nodau ac amcanion Awen trwy ei weledigaeth a'i werthoedd brand. (H)
- Yn gweithio'n dda o dan bwysau ac yn gallu rheoli nifer o flaenoriaethau yn effeithiol i ddyddiadau cau llym. (H)
- Gosod safonau uchel o berfformiad ar gyfer eich hun ac eraill wrth fodloni disgwyliadau cwsmeriaid mewnol ac allanol. (H)
- Diddordeb a brwdfrydedd mewn theatrau a'r celfyddydau.
- Meddyliwr creadigol sy'n gallu cyfrannu at ddatblygiad y Theatr ac Awen.

Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:
(NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- NVQ Lefel 3 mewn Lletygarwch neu debyg neu yn gallu dangos tebyg trwy brofiad (H)
- Profiad profedig o Reoli Digwyddiadau (H)
- Profiad o oruchwylio bar a chaffi.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da (H)
- Rheoli amser yn dda a'r gallu i ddilyn cyfarwyddiadau (H)
- Y gallu i weithio ar eich menter eich hun yn ogystal â bod yn aelod allweddol o dîm (H)
- Sgiliau rhifedd rhagorol o ran casglu, adrodd ar ddata ariannol a thrin arian parod (H)
- Trwydded yrru lawn a cherbyd eich hun at ddibenion gwaith (H)
- Yn gallu rheoli nifer o flaenoriaethau, datrys problemau a gweithio i ddyddiadau cau llym yn effeithiol (H)
- Sgiliau TGCh rhagorol gyda phrofiad o ddefnyddio Microsoft Office (H)
- Cymhwyster IOSH rheoli yn ddiogel neu ddangos tebyg trwy brofiad.
- Tystiolaeth a dealltwriaeth o wasanaethau Awen a'r hyn a gynigir.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoliadau iechyd a diogelwch ar gyfer theatrau a thasgau cynnal a chadw.
- Profiad o ddefnyddio Spektrix neu systemau tocynnau tebyg.
- Profiad mewn rôl gwasanaeth cwsmeriaid mewn amgylchedd celfyddydau neu ddigwyddiadau.
- Y gallu i siarad Cymraeg.
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr.
- Ardystiad Hylendid Bwyd.